

## NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

### TAFOD Y TAB

Bu newid yn y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r rhifyn nesaf o *Tafod y Tab*. Diolchwn i Elain ac Awen am ddod i'r adwy fel y golygyddion, a thaer erfynnir am adroddiadau ac erthyglau gan swyddogion **bob pwyllgor erbyn Ionawr 18fed** fan bellaf.

### Y SULIAU NESAF

#### Rhagfyr 14:

Gwasanaeth Nadolig  
Yr Ysgol Sul

Llywydd: Lowri Roberts  
Taflen : Nia Williams;  
Sgrin: Dafydd Roberts

#### Rhagfyr 21:

Gwasanaeth Nadolig  
Y Twmiaid Bach

Llywydd: Heulyn Rees  
Taflen: Glenys M. Roberts  
Sgrin: Carwyn Lloyd-Jones

### PARTI'R PLANT I DDILYN

#### Rhagfyr 28:

Emlyn Davies

Llywydd: Geraint Wyn Davies  
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

### DILLAD PLANT

Daeth i sylw John Llewellyn Thomas bod angen dybryd yn y Gwasnaethau Cymdeithasol am ddiillad plant o bob oed, o fabis i blant yn eu harddegau. Mae croeso i chi adael diillad addas, mewn bagiau duon, yn llofft y capel, a bydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y lle iawn.

### LLYFRAU ARIANNOL

Cofiwch y bydd y llyfrau ariannol yn cau ar Ragfyr 31ain. Apeliwn atoch i wneud yn siŵr eich bod yn cyfrannu mewn da bryd.

Gwnewch ymdrech arbennig hefyd i gyfrannu drwy'r amlenni brown. Mae'r arian elusen yn mynd at bump achos lleol: TRAVOL, Y Stafell Fyw, Hosbis George Thomas, Clefyd y Galon, a Rhaglen Trawsblannu Gwaed a Mêr Ysbyty'r Waun. Rhowch yn hael os gwelwch yn dda.

### HAMPERI NADOLIG

Dyma eich cyfle olaf i gyfrannu at yr hamperi Nadolig i bobl ifanc sy'n sefydlu cartref am y tro cyntaf yn yr ardal. Mae blwch ar gael yn y tu blaen.

### FFAIR NADOLIG

Yn dilyn gwasanaeth Nadolig y plant ieuengaf fore Sul nesaf bydd Ffair Nadolig, mins peis a diod Nadoligaidd yn Neuadd y Pentref. Y nod yw codi arian i elusennau'r capel. Os oes rhywun yn awyddus i gael stondin, cysylltwch â Lowri Roberts neu Catrin Rees.

Hefyd mae yna apêl am stondin o gacennau cartref, felly os medrwrch gyfrannu at y stondin, llawer iawn o ddiolch!

### CETRIS INC

Rydym yn ail ddechrau casglu cetrin inc ar gyfer Cymorth Cristnogol. Croeso i chi eu gadael yn y blwch yn y cyntedd, ond DIM cetrys Epson. Diolch yn fawr.

### CYFAMOD EGLWYSIG

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.'

### Y BANC BWYD YN TESCO

Diolch i'r criw selog - rhy niferus i'w henwi - fu'n casglu bwyd gan gwsmeriaid Tesco ar ran Banc Bwyd Pontyclun am dridiau ddiwedd mis Tachwedd. Erbyn bore Sadwrn roedd hi'n argoeli mai hwn fyddai'r casgliad mwyaf drwy wledydd Prydain i gyd. Golyga hyn, wrth gwrs, y bydd siec 30% Tesco yn un sylweddol hefyd. Bydd y casgliad nesaf ym mis Gorffennaf ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni. Cysylltwch ag: [ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com)

### GWISGWCH SIWMPER A THALWCH BUNT!

Mae gwahoddiad i bawb wisgo siwmpwr Nadoligaidd neu ddillad lliwgar i ddod i'r oedfa ar Ragfyr 21ain, a thalu £1 am y fraint - a'r arian yn mynd i gronfa elusen y capel. Y bwriad yw rhoi help llaw i deuluoedd anghenus yn yr ardal drwy'r gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. Beth amdani?

### CARDIAU NADOLIG

Angen cerdyn ar y funud olaf? Dewis da ar werth gan Ann Rees